DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf,

## Gofal Deintyddol Pearl

20 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-3586-5
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Methodoleg .......... 2
3. Cyd-destun .......... 4
4. Crynodeb .......... 5
5. Canfyddiadau .......... 6

Profiad y Claf .......... 6

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .......... 8

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 11

Ansawdd yr Amgylchedd .......... 13

6. Camau Nesaf .......... 14

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ofal Deintyddol Pearl, 2 Y Brif Ffordd, Pentre'r Eglwys, Pontypridd CF38 1PY, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 20 Chwefror 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well*: *Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* [1].

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis

[1] Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a’r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar y modd y gweithredir safonau yn y practis a ymwelwyd ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Gofal Deintyddol Pearl yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Pentre'r Eglwys ym Mhontypridd.  Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae’r practis yn cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys un prif ddeintydd a dwy nyrs ddeintyddol, ac mae'r ddwy ohonynt yn gweithio yn y dderbynfa weithiau. Y prif ddeintydd sy'n gyfrifol am reoli'r practis yn gyffredinol; fodd bynnag, roedd pob aelod o'r tîm deintyddol â chyfrifoldeb unigol clir am agweddau ar redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau a chyngor
- Pelydrau-X
- Triniaeth ataliol a pheriodontol (y deintgig)
- Llenwadau
- Tynnu dannedd
- Corunau
- Dannedd gosod ac atgyweiriadau
- Atgyfeiriadau orthodontig

Mae AGIC yn deall bod Gofal Deintyddol Pearl yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Yn hyn o beth, bydd y deintydd sy’n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Canolfan Ddeintyddol Pearl yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well*:*Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Roedd 26 o gleifion a gwblhaodd holiaduron y GIG yn nodi eu bod yn fodlon dros ben ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Fodd bynnag, roedd un claf wedi profi peth anhawster wrth geisio cael apwyntiad oherwydd patrwm ei waith.

Gwelsom y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd pob aelod o'r tîm deintyddol yn ei ddefnyddio.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion pump o gleifion a chynhaliwyd trafodaethau â'r deintydd yn y ddeintyddfa. O ganlyniad, roeddem yn gallu cadarnhau bod y tîm deintyddol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael cydsyniad dilys gan gleifion cyn dechrau'r driniaeth. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu cynllunio a'u darparu yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Mae'r ddeintyddfa wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei rhedeg gan brif ddeintydd a dau aelod o staff sy'n brofiadol a  brwdfrydig. Roedd gweithdrefnau clinigol a phrosesau sicrwydd ansawdd priodol wedi'u sefydlu yn y practis er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu swyddogaethau.

Gwelsom fod amgylchedd y practis yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Roedd 26 o gleifion a gwblhaodd holiaduron y GIG yn nodi eu bod yn fodlon dros ben ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Fodd bynnag, roedd un claf wedi profi peth anhawster wrth geisio cael apwyntiad oherwydd patrwm ei waith.**

**Gwelwyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd pob aelod o'r tîm deintyddol yn ei ddefnyddio.**

Cwblhawyd 27 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Nododd pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn ei dderbyn yn y practis a'u bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi o ran cael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Caiff triniaethau eu trafod gyda'r deintydd a rhoddir cynllun triniaeth i mi."*
>
> *"Sicrheir fy mod yn gartrefol bob amser gan fy mod yn nerfus wrth fynd at y deintydd."*
>
> *"Practis dymunol a chyfeillgar. Rydw i bob amser yn eu hargymell i fy ffrindiau."*
>
> *"Mae'r gwasanaeth a dderbynnir wedi bod o safon uchel bob amser."*
>
> *"Rydw i bob amser wedi cael gwasanaeth ardderchog gan wneud i mi deimlo'n gartrefol iawn."*

Nododd 25 o'r 27 o gleifion a gwblhaodd un o'n holiaduron eu bod yn gwybod sut i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau gwaith. Gwelsom arwydd yn ffenestr y practis yn dangos y rhif cyswllt mewn argyfwng, a chadarnhawyd y darperir rhif cyswllt ar neges peiriant ateb y practis.

Dywedodd pob claf wrthym eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd staff wrthym eu bod yn trafod dewisiadau o ran triniaethau gyda'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth o hyn wedi ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd system apwyntiadau hyblyg wedi'i sefydlu, a gallai cleifion drefnu apwyntiad o flaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Roedd apwyntiadau brys ar gael yn y practis bob dydd, a oedd yn galluogi cleifion i gael eu gweld yn gyflym os oedd angen. Rhoddodd dau glaf y sylwadau canlynol:

> *‘Rydw i'n cael trafferth gwneud apwyntiad gan fy mod yn weithiwr sifft’. Y tro diwethaf, bu'n rhaid i mi wneud apwyntiad bythefnos ar ôl yr apwyntiad cyntaf'.*

> *'Rydw i bob amser wedi cael apwyntiadau addas pan fyddai angen a chafodd fy nhriniaeth ei esbonio i mi.'*

Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael i gleifion yn y dderbynfa. Nid oedd gan y practis wefan, ond darperir gwybodaeth sylfaenol am y practis, gan gynnwys manylion cyswllt ac oriau agor ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Gwelsom amrywiaeth o ddeunydd hybu iechyd wedi'i harddangos yn yr ystafell aros. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth berthnasol ar gael i gleifion er mwyn eu helpu i ofalu am eu hylendid y geg a'u hiechyd eu hunain.  Roedd yr arddangosfa yn defnyddio lluniau a oedd yn golygu ei fod yn fwy hygyrch i amrywiaeth eang o gleifion.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn gyda’r gofal a ddarperir yn y practis. Datgelodd sgwrs gyda'r deintydd yr anogir cleifion i gyflwyno eu safbwyntiau i'r practis trwy ddefnyddio cyfeiriad ar-lein. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr adborth a dderbyniwyd hyd yn hyn trwy'r ddolen electronig wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Pan ofynnwyd sut oedd gwneud cwyn, dywedodd y cleifion wrthym eu bod naill ai’n gwybod sut i wneud unrhyw gŵyn fyddai ganddynt gyda'r staff yn y practis, neu nad oedd ganddynt reswm dros gwyno.  Gwelsom fod poster cwynion wedi’i arddangos yn glir yn union y tu ôl i'r dderbynfa ac roedd yn cynnwys yr amserlenni cywir ar gyfer cydnabod a datrys ynghyd â manylion cyswllt cyrff perthnasol.

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Edrychwyd ar sampl o gofnodion pump o gleifion a chynhaliwyd trafodaethau â'r deintydd yn y ddeintyddfa. O ganlyniad, roeddem yn gallu cadarnhau bod y tîm deintyddol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael cydsyniad dilys gan gleifion cyn dechrau'r driniaeth. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu cynllunio a'u darparu yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion.**

Gwelwyd bod y trefniadau a weithredir o ran defnyddio cyfarpar pelydr-x yn cyd-fynd â safonau a rheoliadau presennol. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau hyfforddiant i'r staff. Gwelwyd bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn fanwl a chlir iawn o ran defnyddio cyfarpar pelydr-X. Roedd yn amlwg hefyd bod y deintyddion wedi cofnodi gwybodaeth ddigonol i gyfiawnhau pam y tynnwyd lluniau pelydr-x deintyddol penodol. Yn ogystal, roedd system sicrhau ansawdd priodol wedi'i sefydlu yn y ddeintyddfa er mwyn sicrhau bod ansawdd y lluniau pelydr-x o gleifion yn cael eu graddio a'u cofnodi. Gwelsom fod arwyddion cydnabyddedig yn ymwneud â'r perygl o ymbelydredd wedi'u gosod uwchben mynedfa'r cleifion a mynedfa'r staff i'r ddeintyddfa.

O drafod â'r tîm deintyddol yn y ddeintyddfa, gwelwyd eu bod yn rhoi pwyslais ar gynllunio a darparu gofal a thriniaeth cleifion yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion. Cyflawnwyd hyn yn rhannol trwy archwilio hanes meddygol y cleifion yn ystod pob ymweliad er mwyn sicrhau bod newidiadau a risgiau posibl i'w hiechyd yn cael eu canfod a'u cofnodi.

Edrychwyd ar sampl o bump o gofnodion deintyddol. O ganlyniad, gwelwyd bod y cofnodion ar ofal cleifion mewn pedwar o'r cofnodion yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr a manwl am ddewisiadau o ran triniaethau, caniatâd cleifion, a'r driniaeth a ddarparwyd; roedd y pumed set o gofnodion yn darparu llai o dystiolaeth o gynllunio triniaethau. Fodd bynnag, roeddem yn gallu gweld yn glir pam y rhoddwyd y triniaethau i gleifion ar y cyfan. Yn ogystal, gwelwyd bod sgoriau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol (BPE[2]) wedi eu cofnodi o ran ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag oedolion, fel sy'n ofynnol dan y canllawiau clinigol.

[2] Offer sgrinio deintyddol a ddefnyddir i adnabod clefyd y deintgig yn gynnar yw'r Archwiliadau Periodontol Sylfaenol. Gall deintyddion roi cyngor i chi ynglŷn â sut i frwsio'ch dannedd a'r ffordd orau o ddefnyddio edau dannedd.

http://www.bdasmile.org/adults/adults.cfm?contentid=1097&contentparentid=1034

Roedd y practis yn dilyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)[3] o ran yr amserlenni a argymhellir ar gyfer ymweliadau ail-alw deintyddol. Roedd hyn yn cynorthwyo'r broses o bennu pryd y dylai cleifion drefnu eu hapwyntiad nesaf.

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw a'u storio'n ddiogel yn y practis deintyddol ar ffurf electronig a phapur.

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i ymdrin ag achosion brys (cleifion); roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Roeddem yn gallu cadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant diweddar a pherthnasol mewn adfywio cardio-pwlmonaidd / dadebru brys.

Gwelwyd y cedwir cyffuriau brys yn y practis yn ddiogel ac roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod cyffuriau lle mae'r dyddiad wedi dod i ben yn cael eu newid yn ddi-oed.  Yn ogystal, cadarnhaodd y deintydd fod aelod o staff bob amser yn gweithio yn y feddygfa sydd wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

Roedd llyfrau presgripsiwn cyffuriau yn cael eu cadw'n ddiogel dan glo, fel sy'n ofynnol.

Ystyriwyd y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a elwir yn ddadheintio fel arall), a gwelwyd y gweithredir dull sefydledig a thrylwyr yn y ddeintyddfa o ran yr agwedd hon ar y ddarpariaeth gwasanaeth. Roedd ystafell ddadheintio ar wahân yn y safle (sy'n cael ei ystyried yn arfer da), a chafodd y broses ddadheintio gyfan ei hategu gan gofnodion manwl o archwiliadau diogelwch dyddiol o ran gweithredu'r awtoclaf [4]a'r bath uwchsonig yn effeithiol[5].

---

[3] Mae canllawiau clinigol deintyddol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn cynorthwyo deintyddion i benderfynu pa mor aml y dylid ail-alw cleifion rhwng adolygiadau iechyd y geg sy'n briodol i anghenion cleifion unigol. Mae'r canllawiau'n berthnasol i gleifion o bob oedran sy'n derbyn gofal sylfaenol gan staff deintyddol y GIG yng Nghymru a Lloegr.

[4] Mae **bath uwchsonig** yn glanhau eitemau gan ddefnyddio uwchsain (fel arfer o 20-400 cilohertz) a sylwedd glanhau priodol.

[5] Siambr bwysedd yw awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

Cawsom sgwrs gyda nyrs ddeintyddol a roddodd ddisgrifiad boddhaol o'r broses ddadheintio sydd ar waith. Er nad oedd sinc golchi dwylo penodol yn yr ystafell ddadheintio, gwelsom fod sinc yn cael ei ddefnyddio i'r pwrpas hwn yn union y tu allan i'r ardal.

Gwelsom fod yr offer a oedd wedi'u pacio a'u cadw yn barod i'w hailddefnyddio yn cynnwys dyddiadau 'dod i ben' priodol. Yn ogystal, gwelsom dystiolaeth o gwblhau archwiliad trylwyr o ran atal a rheoli heintiau yn ddiweddar.

Edrychwyd ar y cofnodion cynnal a chadw cyfarpar yn y practis a'r contract parhaus sydd ar waith i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol.  Gwelwyd bod yr holl gofnodion yn gyfredol a dilys.

Yn ystod yr ymweliad arolygu, ystyriwyd pa un a oedd y cyfleusterau clinigol oedd ar gael yn y practis yn cydymffurfio â safonau cyfredol y gwasanaethau iechyd yng Nghymru.[6]. O arsylwi, cafwyd cadarnhad bod digon o gyfarpar yn y practis a bod y cyfleusterau o safon dda iawn.

[6] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/safonau-ar-gyfer-gwasanaethau-iechyd-cym Caiff y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru eu hategu gan ganllawiau ategol.Mae canllawiau penodol ar bob safon unigol (1–26) ar gael yn y ddogfen hon.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Mae'r ddeintyddfa wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei rhedeg gan y prif ddeintydd a dau aelod o staff sy'n brofiadol a brwdfrydig. Roedd gweithdrefnau clinigol a phrosesau sicrwydd ansawdd priodol wedi'u sefydlu yn y practis er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu swyddogaethau.**

Mae Practis Deintyddol Pearl yn ddeintyddfa annibynnol sydd wedi'i hen sefydlu. Y prif ddeintydd sy'n gyfrifol am reoli'r practis yn gyffredinol o ddydd i ddydd; fodd bynnag, roedd y ddau aelod arall o'r tîm deintyddol â chyfrifoldeb unigol clir am agweddau ar redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei redeg yn dda gan fod y gwaith dyddiol o weithredu'r gwasanaeth yn cael ei ategu gan amrywiaeth o weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrwydd ansawdd er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn brydlon. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny drwy edrych ar amrywiaeth o gofnodion a pholisïau a gedwir yn y practis, ac o drafod â phob aelod o'r tîm deintyddol.

Cafodd manylion cyswllt y timau diogelu lleol mewn perthynas ag amddiffyn oedolion a phlant eu diwygio o fewn y dogfennau polisi gan y deintydd yn ystod yr archwiliad oherwydd gwelwyd eu bod yn anghywir.

Roedd elfen nyrsio a gweinyddol y tîm staff wedi'i hen sefydlu'n dda; roedd pob unigolyn wedi gweithio yn y practis ers blynyddoedd lawer. Dywedwyd wrthym hefyd nad yw'r practis yn defnyddio staff deintyddol asiantaeth a bod lefelau salwch/ absenoldeb staff yn isel. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael gofal a thriniaeth gan staff sy'n gyfarwydd iddynt.

Dywedodd y staff nyrsio deintyddol y siaradwyd â nhw wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu gwaith. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod, ynghyd â'r deintydd, yn mynychu cyfarfodydd staff rheolaidd (bob tri mis) lle y cânt gyfleoedd i fynegi unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaethau a ddarperir i gleifion. Defnyddiwyd cyfarfodydd o'r fath hefyd i drosglwyddo gwybodaeth newydd/ perthnasol i'r tîm deintyddol. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny drwy edrych ar y nodiadau a gedwir yn y ddeintyddfa a oedd yn amlygu'r pynciau/ materion perthnasol a drafodwyd gan y tîm. O drafod â'r prif ddeintydd, gwelwyd hefyd allu'r tîm i drafod materion clinigol o ddydd i ddydd mewn ffordd anffurfiol.

O archwilio dwy ffeil staff, gwelwyd eu bod wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol yn 2014 a oedd yn cynnwys sesiynau'n ymwneud ag adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) ac amddiffyn oedolion a phlant. Gwelsom hefyd fod y practis yn rhoi pwyslais mawr ar hyfforddiant a datblygiad staff yn gyffredinol; roedd y ffeiliau datblygiad

proffesiynol parhaus yn cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant staff yn y blynyddoedd diwethaf.

Gwelsom gofnodion ysgrifenedig a oedd yn rhoi tystiolaeth bod staff yn cael arfarniad blynyddol, ac roedd hyn yn cynorthwyo'r broses o bennu pa un a oedd yr hyfforddiant a dderbyniwyd yn ystod y deuddeg mis blaenorol wedi bod yn effeithiol, a pha hyfforddiant oedd yn ofynnol yn y dyfodol. Roedd yr arfarniad hefyd yn cynnig y cyfle i drafod yn agored y gwasanaethau a ddarperir yn y practis.

Datgelodd sgwrs â'r prif ddeintydd eu bod yn cymryd rhan mewn arfer adolygu gan gymheiriaid ar hyn o bryd, sy'n galluogi iddo drafod agweddau ar arferion clinigol â deintyddion lleol eraill. Bwriad hyn oedd gwneud cymaint o welliannau â phosibl i'r gwasanaeth a ddarperir yng Nghanolfan Ddeintyddol Pearl.

Gwelsom fod contractau cyflogaeth ar gyfer y staff a'u bod wedi'u llofnodi a'u dyddio, bod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad deintyddol.  Roedd y ddeintyddfa hefyd wedi datblygu rhaglen sefydlu i sicrhau y darparwyd ffordd i unrhyw aelodau newydd o'r tîm deintyddol ymgyfarwyddo â phrosesau a gweithdrefnau sefydledig o ran gwasanaethau cleifion.

Gwelsom fod gan y practis dystiolaeth gyfredol o frechiad Hepatitis B ar gyfer yr holl aelodau staff. Cadarnhaodd sgwrs gyda nyrs ddeintyddol hefyd fod trefniadau addas ar waith rhwng y practis a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf er mwyn cael cymorth a chyngor gan yr adran iechyd galwedigaethol pan fo angen hynny.

Yn ystod trafodaeth â dwy nyrs ddeintyddol, gwelwyd eu bod yn teimlo'n hyderus i fynegi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch y gwasanaethau a ddarperir yn y practis. Roedd gweithdrefn chwythu'r chwiban wedi'i sefydlu hefyd.

Roedd tystysgrifau AGIC yn ymwneud â'r ddeintyddiaeth breifat a ddarperir yn y practis, wedi'u harddangos yn glir yn y man aros i gleifion, fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat.

O archwilio amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis, gwelwyd bod systemau a phrosesau addas wedi'u sefydlu i sicrhau bod offer yn cael eu harchwilio yn brydlon ac yn unol â'r gofynion gorfodol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gwelsom fod amgylchedd y practis yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.**

Mae Practis Deintyddol Pearl yn bractis bach yn ardal Pentre'r Eglwys ym Mhontypridd. Mae lleoedd parcio am ddim ar gael rownd y gornel i safle'r practis.

Ceir un deintyddfa ac un man aros yn y practis ac maent ar y llawr daear. Mae'r dderbynfa ar y llawr daear hefyd. Cadarnhaodd sgwrs gyda'r staff fod cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn gallu mynd i mewn i'r safle a'r ddeintyddfa i dderbyn gofal a thriniaeth.

Wrth arsylwi, gwelsom fod maint y man aros yn briodol o ystyried nifer y cleifion sy'n mynychu'r practis. Roedd y man hwn yn olau, yn lân ac yn darparu man cyfforddus lle gallai cleifion aros i weld y deintydd.

Roedd rhif cyswllt 'y tu allan i oriau gwaith' wedi'i arddangos yn glir ar ffenestr y practis. Roedd hyn yn golygu y sicrheir bod cleifion ac aelodau o'r cyhoedd yn gwybod sut i gael gofal a thriniaeth ddeintyddol ar frys pan fo'r practis ar gau. Roedd y rhif hwn hefyd ar gael i gleifion ar neges peiriant ateb y practis.

Roedd enw a chymwysterau'r deintydd wedi’u harddangos yn glir ar ddrws ffrynt y practis hefyd.

Roedd unig doiled y practis ar y llawr cyntaf. Roedd i'w weld yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas i atal croes-heintio.

Roedd man newid ar gael i'r staff ar lawr cyntaf yr adeilad, ac roedd yn fan cyfforddus i fwyta ac yfed yn ystod egwyl gwaith hefyd.

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol, y tu mewn a'r tu allan. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân.

## 6. Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, nid oes angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella.